CWESTIYNAU CYFFREDIN

Sut i archebu tocyn ar gyfer Digwyddiad Ar-lein (gan ddefnyddio Citizen Ticket)

SUT YDW I'N PRYNU TOCYN AR GYFER DIGWYDDIAD AR-LEIN?

Ewch i https://www.rwcmd.ac.uk/cy/whats-on/events/all a dod o hyd i'r digwyddiad yr ydych am ei wylio ar-lein a chliciwch 'Buy Tickets'.

SUT YDW I'N YCHWANEGU TOCYNNAU I DDIGWYDDIADAU AR-LEIN ERAILL I'M BASGED?

Unwaith eich bod wedi ychwanegu tocyn i'ch basged cliciwch ar y tab **Search** (nesaf at y tab My Basket) a chwiliwch am y digwyddiad yr ydych eisiau prynu tocyn ar ei gyfer.

AM FAINT O AMSER Y MAE DIGWYDDIADAU AR-LEIN AR GAEL?

Mae hyn yn amrywio yn dibynnu ar y cynhyrchiad, ond bydd mwyafrif ein digwyddiadau ar-lein ar gael am nifer o ddyddiau.
Gallwch ddewis gwylio'r fideo cyn gynted ag y bydd ar gael, neu gallwch ei wylio'n ddiweddarach.
Os cawsoch flas mawr ar y digwyddiad, gallwch hyd yn oed ei wylio eto!

A FYDDAF YN DERBYN E-BOST I GADARNHAU?

Unwaith eich bod wedi talu am eich tocyn, byddwch yn derbyn cadarnhad trwy e-bost gan Citizen Ticket. Cadwch y neges e-bost hon gan ei bod yn cynnwys dolen i wylio'r digwyddiad ar-lein.
Byddwch hefyd yn derbyn neges atgoffa ar y diwrnod cyn y digwyddiad a fydd hefyd yn cynnwys dolen i wylio'r digwyddiad.

Pan fyddwch yn barod i wylio'r digwyddiad cliciwch ar y ddolen Watch Livestream.



Gallwch hefyd fewngofnodi i'ch Waled Citizen Ticket sy'n cynnwys ddolenni eich holl e-docynnau.

BETH YW WALED TOCYNNAU?
Trefnir Waled Citizen Ticket yn awtomatig i chi pan fyddwch yn prynu eich tocyn ar-lein cyntaf. Eich Waled Tocynnau yw'r ffordd hawsaf, mwyaf diogel a mwyaf cyfleus i gael gafael ar eich tocynnau ar gyfer ein perfformiadau ar-lein.
Mae eich Waled Tocynnau yn cynnwys gwybodaeth am bob tocyn yr ydych wedi'i brynu a dolen Watch Livestream neu Watch Again.

PAM EI FOD YN DWEUD 'WATCH LIVESTREAM' OS MAI FIDEO YDYW?
Mae hyn yn golygu bod y digwyddiad yn dechrau ar ddyddiad ac amser penodol.
Bydd ein digwyddiadau ar-lein ar gael i'w gwylio am nifer o ddyddiau.
Bydd eich tocyn yn nodi'n glir am faint o amser y mae'r digwyddiad ar gael.

SUT YDW I'N GWYLIO'R DIGWYDDIAD AR-LEIN?
Yn eich neges e-bost cadarnhau neu eich e-bost atgoffa fe welwch y ddolen Watch Livestream. Bydd clicio ar hon yn mynd â chi i dudalen y digwyddiad.
Os yw'r digwyddiad i fod i ddechrau'n fuan, fe fydd botwm chwarae yn ymddangos yn fuan.
Os yw'r digwyddiad eisoes wedi digwydd, gallwch ei wylio eto drwy glicio'r ddolen Watch Again:



RYDW I WEDI COLLI FY E-DOCYN, BETH DDYLWN EI WNEUD?
Fe fyddwch yn derbyn e-bost atgoffa ar y diwrnod cyn y digwyddiad a bydd dolen i'r digwyddiad yn y neges hon.
Neu gallwch fewngofnodi i'ch cyfrif i gael gafael ar eich e-docyn yma: www.citizenticket.co.uk/account/wallet/

Os ydych chi'n dal i gael trafferth, cysylltwch â boxoffice@rwcmd.ac.uk a gallwn ail anfon eich Waled Tocynnau i chi.

A ALLAF I DDEFNYDDIO CREDYD FY NGHYFRIF CBCDC PRESENNOL NEU DALEB RHODD?
Mae'n ddrwg gennym, ond ni allwch ddefnyddio credyd eich cyfrif CBCDC na thalebau rhodd ar gyfer ein perfformiadau sy'n cael eu ffrydio'n fyw neu fideo ar alw.

A ALLAF I BRYNU TOCYN I FFRIND I WYLIO PERFFORMIAD AR-LEIN?
Mae'n ddrwg gennym, nid oes ffordd i anfon tocyn rhodd i rywun arall. Fodd bynnag, gallwch chi brynu tocyn a throsglwyddo eich tocyn i'ch derbynnydd. Bydd neges e-bost yn mynd i flwch derbyn y derbynnydd yn gofyn iddynt greu cyfrif Citizen Ticket. Mae'n hawdd iddynt gofrestru ac mae'n eu sicrhau bod y tocyn yn eu waled.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i drosglwyddo eich tocynnau, ewch i:
https://help.citizenticket.co.uk/support/solutions/articles/60000673900-i-want-to-transfer-my-ticket-to-a-friend-or-family-member-

AD-DALIADAU A CHYFNEWIDIADAU
Mae'n ddrwg gennym, ni ellir rhoi ad-daliad ar gyfer tocynnau i'n digwyddiadau ar-lein ac ni allwn gyfnewid tocynnau nad ydych eu heisiau.

PA DDYFAIS DDYLWN I EI DEFNYDDIO I WYLIO PERFFORMIAD AR-LEIN?
Os oes gennych gysylltiad da i'r rhyngrwyd, gallwch wylio ein digwyddiadau ar-lein ar eich ffôn neu'ch cyfrifiadur (mae Citizen Ticket yn argymell defnyddio porwr Google Chrome).

Gallwch hefyd ffrydio'r digwyddiad i'ch teledu, dyma'r cyfarwyddiadau:
https://help.citizenticket.co.uk/support/solutions/articles/60000673462-how-do-i-stream-an-event-to-my-tv-